



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm
Clydach, CF40 2XX
Dydd Mawrth, 16eg Hydref, 2018 am 1.00 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol
(Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 12 Hydref 2018. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 14)

3. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n egluro'r sefyllfa o ran adnoddau untro mae modd manteisio arnyn nhw yn sgil adolygu'r cronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2017/18.

(Tudalennau 15 - 26)

4. DIWEDDARAF YNGLŶN Â BUDDSODDI – HAMDDEN, PARCIAU, MANNAU CHWARAE, TREFTADAETH AC ATYNIADAU I YMWELWYR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf ynghylch hynt y rhaglen fuddsoddi mewn perthynas â Chanolfannau Hamdden, Meysydd 3G, Mannau Chwarae, Parciau, Treftadaeth, ac Atyniadau i Ymwelwyr, sy'n amlinellu'r gwelliannau yng nghyflawniad y gwasanaeth o ganlyniad i'r buddsoddiad.

(Tudalennau 27 - 52)

5. Y PRIFFYRDD, TRAFNIDIAETH A CHYNLLUNIAU STRATEGOL – STRATEGAETH BUDDSODDI MEWN ASEDAU'R PRIFFYRDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd sydd wedi'i gyflawni trwy'r Cynllun Buddsoddi yn y Priffyrdd, ac i gyflwyno opsiynau gyda'r costau ar gyfer strategaethau cynnal a chadw'r priffyrdd a llwybrau troed yn y dyfodol.

(Tudalennau 53 - 66)

6. Y DIWEDDARAF AR BROSIECTAU SEILWAITH TRAFNIDIAETH MAWR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer o brosiectau seilwaith trafndiaeth strategol allweddol.

(Tudalennau 67 - 78)

7. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio, Cynllunio, a Thai sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cynnwys yr Adroddiad Monitro Blyneddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol.

(Tudalennau 79 - 92)

8. STRATEGAETH CANOL TREF Y PORTH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adfywio, Cynllunio, a Thai sy'n cyflwyno i'r Aelodau strategaeth adfywio (fersiwn drafft) ar gyfer Canol Tref y Porth yn y dyfodol, a fydd yn tyfu'r economi a chreu swyddi.

(Tudalennau 93 - 124)

9. DEDDF GAMBLO 2005 - ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION (POLISI LLEOL) 2019-2021

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned sy'n nodi'r Datganiad o Egwyddorion diwygiedig, o dan ddarpariaethau y Ddeddf Gamblo ar gyfer y cyfnod 2019-2021 yn unol â gofynion statudol.

(Tudalennau 125 - 184)

10. DEDDF RHEOLEIDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 – DEFNYDD O'R DDEDDF YN 2017–18 GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF A PHOLISI GORFODI CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, sy'n rhoi cyfle i'r Aelodau adolygu defnydd y Cyngor o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (fel y'i diwygiwyd) (RIPA) yn 2017/18 ac adolygu a sefydlu Polisi Gorfodi Corfforaethol y Cyngor a'i bolisi mewn perthynas â'r defnydd o'r ddeddf.

(Tudalennau 185 - 322)

11. BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol i Aelodau.

(Tudalennau 323 - 356)

12. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agenda nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

13. PROESU DEUNYDDIAU AILGYLCHU CYMYSG YMYL Y FFORDD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n nodi canlyniad y broses gaffael ar gyfer buddsoddi, ynghyd â'i gwmni y mae'n berchen arno'n gyfangwbl (Amgen), mewn technoleg newydd er mwyn gwneud newid sylweddol o ran effeithlonrwydd prosesu deunydd ailgylchu yn ei Gyfleuster Adennill Deunydd (MRF).

(Tudalennau 357 - 364)

14. MATERION BRYG

Trafod unrhyw faterion bryg y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol**

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

Swyddogion: Simon Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a
Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth
Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a
Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a
Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Gyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer
Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant
Jane Cook, Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y
Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a
Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau
Cynhwysiant